**Oddi wrth Yr Athro Susan Jebb**
Cadeirydd yr ASB

**E-bost** [redacted]

SeneddLJC@senedd.wales

18 Tachwedd 2022

Cyfeirnod: MC2022/00298

Annwyl Weinidog / Annwyl Mr Irranca-Davies

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais yn gofyn i randdeiliaid wneud sylwadau ar y darpariaethau ym Mhil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) er mwyn llywio'r gwaith o graffu ar y Bil a memoranda cydsynio deddfwriaethol dilynol Llywodraeth Cymru.

Mae datganoli yn golygu bod cyfrifoldeb dros ddiogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid wedi trosglwyddo o lywodraeth y DU i Gymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae hyn yn golygu bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gyfrifol am ddatblygu polisïau a chynghori Gweinidogion Cymru ar y meysydd hyn. Mae ein hymrwymiad i weithio ar draws y pedair gwlad yn sicrhau y gallwn ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr yn effeithiol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan weithio gyda Safonau Bwyd yr Alban.

Fel y gwyddoch, mae'r Bil yn bwriadu dirwyn i ben Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) yn awtomatig ar ddiwedd 2023, oni bai bod Gweinidogion yn cytuno i'w hymestyn, ei chadw, ei diwygio neu ei hailddatgan. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys yr opsiwn i ymestyn REUL i ganiatáu diwygio yn ystod y cyfnod hyd at 2026.

Yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), rydym yn glir na allwn ddirwyn i ben y deddfau ar ddiogelwch a dilysrwydd bwyd heb beri dirywiad yn safonau bwyd y DU a risg sylweddol i iechyd y cyhoedd. Er fy mod yn siŵr nad dyma yw bwriad y Llywodraeth gyda'r cynlluniau hyn, mae'r amserlen bresennol yn peri peth pryder i mi. Bydd angen i ni weithio drwy fwy na 150 o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir, y mae 39 ohonynt yn benodol i Gymru, yn gyflym iawn, a chynghori gweinidogion ar y ffordd orau o ymgorffori rheolau pwysig sy'n diogelu diogelwch bwyd ac iechyd y cyhoedd yn ein deddfwriaeth ddomestig.

Ein prif flaenoriaeth o hyd yw sicrhau bod gan bobl fwyd y gallant ymddiried ynddo. Rydym hefyd yn cydnabod bod hwn yn gyfle i adolygu a diwygio'r cyfreithiau hyn fel bod busnesau'n cael eu rheoleiddio yn y ffordd gywir i'w galluogi i ddarparu bwyd diogel y gellir ymddiried ynddo, i fasnachu'n rhyngwladol, ac i dyfu.

Lloriau 6 a 7, Clive House
70 Petty France, Llundain SW1H 9EX
E-bost: [redacted]

SGÔR HYLENDID BWYD
FOOD HYGIENE RATING

I gael gwybodaeth am gleientiaid yr Asiantaeth Safonau Bwyd, cliciwch yma / I gael gwybodaeth am Bolisi Preifatrwydd yr ASB, cliciwch yma.

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn trin eich data personol, cliciwch yma neu ewch i https://www.food.gov.uk/cy/about-us/rhybudd-preifatrwydd-gohebiaeth-y-swyddfa-Eich dewis

Maes o law, credwn mai Bil Bwyd a Bwyd Anifeiliaid newydd y DU fyddai'r cyfle gorau i ailfeddwl yn gynhwysfawr, wedi'i deilwra i anghenion y DU. Mae ein profiad yn dweud wrthym fod datblygu polisi mewn ffordd agored a thryloyw sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth yn well i ddefnyddwyr ac i fusnesau, ond mae hyn yn cymryd amser i'w gael yn iawn.

Mae cyfraith bwyd yn fater datganoledig ac rydym yn cefnogi penderfyniadau datganoledig ar ddiogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Byddwn yn parhau i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar effeithiau biliau yng Nghymru, a byddwn yn ystyried unrhyw ddiwygiadau yn unol ag ymrwymiadau yn y cytundebau fframwaith cyffredin ar gyfer Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Safonau Ynghylch Cyfansoddiad a Labelu.

Yn gywir,

Susan Jebb

Yr Athro Susan Jebb OBE, PhD, FRCP (Anrh), FMedSci

Lloriau 6 a 7, Clive House
70 Petty France, Llundain SW1H 9EX
Ffôn: [redacted]
E-bost: [redacted]

FOOD HYGIENE RATING
food.gov.uk/ratings

I gael gwybodaeth am Bolisi Preifatrwydd yr ASB, cliciwch yma.

I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn trin eich data personol, cliciwch yma neu rhowch: https://www.food.gov.uk/cy/about-us/rhybudd-preifatrwydd-gohebiaeth-y-swyddfa-breifat yn eich porwr gwe.